# Will Evans

## Bywgraffiad

Will Evans (1888-1957) - Arlunydd, dylunydd a chrëwr argraffiadau a gafodd ei eni ac a fu farw yn Abertawe, De Cymru. Cafodd Evans ei eni yn Waun Wen, Abertawe.

Ar ôl gadael yr ysgol yn 14 oed, aeth yn brentis argraffydd tunplat yng ngwaith Canister yn Ne Cymru. Yn y pen draw fe oedd eu prif ddylunydd ac yn 1910 dechreuodd fynd am wersi rhan amser i Ysgol Gelf Abertawe.

Dechreuodd Evans arddangos ei waith pan oedd yn dal i fod yn fyfyriwr ac ym 1911 enillodd ei ddarlun 'Castell yng Nghymru' y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gafodd ei chynnal yng Nghaerfyrddin.

Erbyn y 1920au roedd pobl yn dechrau cydnabod ei waith y tu allan i Gymru. Daeth yn ddarlithydd mewn peintio yn Ysgol Gelf Abertawe a chafodd ei ethol yn Gydymaith Academi Frenhinol Gelf Cambria ym 1936.

Mae Evans fwyaf enwog am ei beintiadau o Abertawe a'r dinistr ar ôl y Blitz Tair Noson. Yn aml mae pobl yn cyfeirio ato fel un o 'Feibion Gwalia'. Bu farw yn Ysbyty Mount Pleasant, Abertawe ym 1957 yn saith deg naw oed.